



Rhwydwaith  
**CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU**  
WALES SAFER COMMUNITIES  
Network

## **RHWYDWAITH CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU: CYFRES SEMINARAU'R GAEAF**

Strydoedd Mwy Diogel Cymru: Rhannu arfer da a dysgu

## **WALES SAFER COMMUNITIES NETWORK: WINTER SEMINAR SERIES**

Safer Streets Wales: Sharing good practice and learning

**14/03/2022, 14:00 – 16:00**

### **PECYN SEMINAR PACK**

#### **CYNNWYS ▪ CONTENTS**

- 1** Rhaglen ▪ Agenda
- 3** Bywgraffiadau Siaradwyr ▪ Speaker Biographies
- 7** Adborth ▪ Feedback
- 8** Cwestiynau Cyffredin ▪ FAQs

**#cymunedaumwydiogel**  
**#safercommunities**



## RHAGLEN

Bydd y seminar hwn yn arddangos y prosiectau gwych sydd wedi eu cynnal ar draws Cymru yn dilyn ceisiadau llwyddiannus i Gronfa Strydoedd Mwy Diogel y Swyddfa Gartref.

- 14:00**      **1. Gwybodaeth Ymarferol**  
Holly Roberts, Rheolwr Cyfathrebu a Digwyddiadau, Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru
- 14:05**      **2. Cyflwyniad i Gymunedau Mwy Diogel yng Nghymru**  
Dirprwy Brif Gwnstabl Claire Parmenter, Heddlu Dyfed Powys ac Arweinydd Plismona Cymdogaeth Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC)
- 14:10**      **3. Strydoedd Mwy Diogel a Rownd 4**  
Leah Hilton, Y Swyddfa Gartref
- 14:20**      **4. Ardal Heddlu Dyfed Powys**  
Rhingyll Ben Ashton, Tîm Plismona Cymdogaeth Llanelli
- 14:40**      **5. Ardal Heddlu Gogledd Cymru**  
Uwcharolygydd Helen Corcoran, Gwasanaethau Plismona Lleol
- 15:00**      **6. Ardal Heddlu Gwent**  
Prif Arolygydd Damian Sowrey, Arweinydd Prosiect Strydoedd Mwy Diogel
- 15:20**      **7. Ardal Heddlu De Cymru**  
Arolygydd Mike Rudall, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol  
Joanna Markham, Swyddog Grantiau Comisiynu
- 15:40**      **8. Panel Holi ac Ateb**  
Holl Siaradwyr
- 15:55**      **9. Cloi**  
Holly Roberts, Rheolwr Cyfathrebu a Digwyddiadau, Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru



## AGENDA

This seminar will showcase the brilliant projects that have taken place across Wales following successful bids to the Home Office's Safer Streets Fund.

- 14:00**      **1. Housekeeping**  
Holly Roberts, Communications and Events Manager, Wales Safer Communities Network
- 14:05**      **2. Introduction to Safer Streets in Wales**  
Deputy Chief Constable Claire Parmenter, Dyfed-Powys Police & National Police Chiefs' Council (NPCC) Lead for Neighbourhood Policing
- 14:10**      **3. Safer Streets and Round 4**  
Leah Hilton, Home Office
- 14:20**      **4. Dyfed-Powys Police Force Area**  
Sergeant Ben Ashton, Llanelli Neighbourhood Policing Team
- 14:40**      **5. North Wales Police Force Area**  
Superintendent Helen Corcoran, Local Policing Services
- 15:00**      **6. Gwent Police Force Area**  
Chief Inspector Damian Sowrey, Project Lead for Safer Streets
- 15:20**      **7. South Wales Police Force Area**  
Inspector Mike Rudall, Community Safety Partnership  
Joanna Markham, Commissioner Grants Officer
- 15:40**      **8. Question and Answer Panel**  
All Speakers
- 15:55**      **9. Close**  
Holly Roberts, Communications and Events Manager, Wales Safer Communities Network



## BYWGRAFFIADAU SIARADWYR

- **Dirprwy Brif Gwnstabl Claire Parmenter, Heddlu Dyfed Powys ac Arweinydd Plismona Cymdogaeth Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC)**

Mae gan Claire radd BA (Anrh) mewn Addysg, ar ôl astudio yng Nghaerdydd. Ymunodd Claire â Heddlu Dyfed-Powys ym 1993, ac mae wedi gwasanaethu mewn sawl swydd ar draws ardal Dyfed-Powys. Yn ystod ei gyrfa hyd yma, mae wedi bod mewn rôl genedlaethol i gefnogi gweithredu plismona cymdogaeth ar draws y DU, cyfnod fel Arweinydd Gwasanaethau Brys ar y Cyd dros Gymru yn cefnogi cadernid ar draws pedwar llw Heddlu Cymru, Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, a secondiad i'r awdurdod lleol i ddatblygu'r strategaeth gymunedol ar y cyd.

Mae Claire wedi arwain nifer o raglenni newid yn yr heddlu ac mae wedi gweithio yn Heddlu Avon a Gwlad yr Haf ar secondiad. Mae Claire wedi ennill gwobr Cefnogwr Gweithlu Stonewall am ei gwaith yn cefnogi amrywiaeth ar draws Cymru. Mae hi'n gadlywydd aur trefn gyhoeddus ac arfau tanio strategol.

Penodwyd Claire yn Brif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro yn 2017 a chafodd ei dyrchafu i swydd Dirprwy Brif Gwnstabl ym mis Awst 2019.

Rhwng mis Chwefror 2021 – Rhagfyr 2021, penodwyd Claire yn Brif Gwnstabl Dros Dro. Mae Claire yn arweinydd Prif Swyddog Cymru ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) a Swyddogion Cymuned Ysgol yr Heddlu (SCPO). Mae'n Arweinydd Portffolio NPCC ar gyfer Plismona Cymdogaeth.

- **Leah Hilton, Y Swyddfa Gartref**

Ymunodd Leah â'r Gwasanaeth Sifil a'r Swyddfa Gartref yn 2020, gan weithio yn yr uned trosedd cymdogaeth. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Leah wedi gweithio ar bedair rownd y Gronfa Strydoedd Mwy Diogel, ymgysylltiad y sector elusennol a chydlynu strategaeth trosedd cymdogaeth y llywodraeth.

- **Rhingyll Ben Ashton, Tîm Plismona Cymdogaeth Llanelli, Heddlu Dyfed Powys**

Mae'r Rhingyll Ben Ashton wedi bod yn swyddog heddlu yn Nyfed-Powys am 13 mlynedd. Ymunodd â Thîm Plismona yn y Gymdogaeth Tref Llanelli ym mis Awst 2020.



## BYWGRAFFIADAU SIARADWYR

- **Prif Arolygydd Damian Sowrey, Arweinydd Prosiect Strydoedd Mwy Diogel, Heddlu Gwent**

Ymunodd Damian â gwasanaeth yr heddlu ym 1997 ar ôl treulio nifer o flynyddoedd yng nghorfflu Cudd-wybodaeth Byddin Prydain.

Dechreuodd ei wasanaeth gyda Heddlu Dyffryn Tafwys cyn symud i Heddlu Gorllewin Mersia yn 2000. Mae wedi bod yn byw yn Sir Fynwy ers ugain mlynedd, felly pan ddaeth cyfle i wasanaethu gyda'i heddlu lleol yn 2017, manteisiodd ar y cyfle. Nid oes ganddo gynlluniau i symud eto – mae tri heddlu gwahanol yn ddigon!

Mae gan Damian brofiad eang fel swyddog heddlu, ar ôl gweithio ym maes ymateb, cymdogaeth a phlisma'r ffyrdd yn ogystal â chyflawni rolau fel cadlywydd trefn gyhoeddus ac arfau tanio. Mae hefyd wedi bod yn ymwneud â darparu nifer o brosiectau mawr ar hyd y ffordd.

Pan nad yw'n gweithio, mae Damian yn mwynhau darllen, a graddiodd yn ddiweddar o'r Brifysgol Agored gyda gradd mewn Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol ac mae'n gweithio tuag at radd Meistr mewn Ysgrifennu Creadigol ar hyn o bryd. Pan nad yw'n brysur yn darllen, mae'n mwynhau rhedeg, beicio a mynd â'i gi am dro yng nghefn gwlad hardd Sir Fynwy.

Mae Damian yn briod a chanddynt ddwy ferch.

- **Arolygydd Mike Rudall, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, Heddlu De Cymru**

Mae Mike yn Swyddog gyda Heddlu De Cymru. Mae ganddo 27 mlynedd o wasanaeth gydag amrywiaeth o brofiad gweithredol. Dros y 3 blynedd diwethaf, mae Mike wedi gweithio mewn Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, mae wedi arwain ar Strydoedd Mwy Diogel 1 mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac ar hyn o bryd mae'n darparu Strydoedd Mwy Diogel 3 gyda chyngor Rhondda Cynon Taf.

- **Joanna Markham, Swyddog Grantiau Comisiynu, Heddlu De Cymru**

Jo yw'r Swyddog Grantiau ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd De Cymru. Mae'n rheoli'r gyllideb £16 miliwn gan sicrhau bod yr arian yn cael ei wario'n ddoeth. Bu Jo yn gweithio yn y trydydd sector am 20 mlynedd ac mae'n dod ag arbenigedd o ran llywodraethu da a datblygu ceisiadau i'w rôl.



## **SPEAKER BIOGRAPHIES**

- **Deputy Chief Constable Claire Parmenter, Dyfed-Powys Police & National Police Chiefs' Council (NPCC) Lead for Neighbourhood Policing**

Claire holds a BA (hons) degree in Education having studied at Cardiff.

Claire joined Dyfed-Powys Police in 1993, and has served in a variety of uniform roles across the Dyfed-Powys area. Her career to date has included a national role supporting the implementation of neighbourhood policing across the UK, time as the Joint Emergency Services Lead for Wales supporting resilience across the four Welsh forces, Welsh Fire and Rescue Services and the Welsh Ambulance Service Trust, and a secondment to the local authority developing the joint community strategy.

Claire has led a number of change programmes within force and has also worked in Avon and Somerset Constabulary on secondment. Claire has been awarded the Stonewall Workplace Champion award for her work supporting diversity across Wales. She is an accredited strategic firearms and gold public order commander. Claire was appointed as Temporary Assistant Chief Constable in 2017 and promoted to Deputy Chief Constable in August 2019.

Between February 2021 – December 2021, Claire was appointed Temporary Chief Constable.

Claire is the Welsh Chief Officer lead for both Police Community Support Officers (PCSOs) and School Community Police Officers (SCPOs). She is the NPCC Portfolio Lead for Neighbourhood Policing.

- **Leah Hilton, Home Office**

Leah joined the Civil Service and Home Office in 2020, working in the neighbourhood crime unit. Over the past two years Leah has worked on all four rounds of the Safer Streets Fund, charitable sector engagement and coordinating the governments neighbourhood crime strategy.

- **Sergeant Ben Ashton, Llanelli Neighbourhood Policing Team, Dyfed-Powys Police**

Sergeant Ben Ashton has been a police officer in Dyfed Powys for 13 years. He joined Llanelli Town Neighbourhood Policing Team in August 2020.



## **SPEAKER BIOGRAPHIES**

- **Chief Inspector Damian Sowrey, Project Lead for Safer Streets, Gwent Police**

Damian joined the police service in 1997 having spent a number of years in the British Army Intelligence corps.

He began his service in Thames Valley Police before moving to West Mercia Police in 2000. He has lived in Monmouthshire for twenty years, so when the opportunity came up to serve with his local force in 2017 he jumped at the chance. He has no plans to move again – three forces are enough!

Damian has broad experience as a uniformed officer, having worked in response, neighbourhood and roads policing, as well as performing roles as a firearms and public order commander. He has also been involved in the delivery of several large projects along the way.

Away from work Damian is an avid reader who recently graduated from the Open University with a degree in English Literature and Creative Writing, and he is now working towards a Masters in Creative Writing. When he hasn't got his head stuck in a book he enjoys running, cycling and walking his dog in the stunning Monmouthshire countryside.

Damian is married with two daughters.

- **Inspector Mike Rudall, Community Safety Partnership, South Wales Police**

Mike is an Officer in South Wales Police. He has 27 years' service, with various operational experience. In the last 3 years, Mike has worked in Community Safety Partnerships, has led on Safer Streets 1 in partnership with Merthyr Tydfil County Borough Council and is presently delivering Safer Streets 3 with Rhondda Cynon Taff council.

- **Joanna Markham, Commissioner Grants Officer, South Wales Police**

Jo is the Grants Officer for the Police and Crime Commissioner for South Wales. She manages the £16m budget ensuring that the money is used wisely. Jo worked in the third sector for 20 years and brings expertise of good governance and bid development to her role.



## ADBORTH ▪ FEEDBACK

**“Mae’n dda clywed bod ymyriadau’n digwydd mewn lleoedd eraill. Mae’n rhywbeth i feddwl amdano o ran sut rydym ni’n symud ymlaen gyda gweithio mewn partneriaeth.”**

**“Good to hear about interventions going on elsewhere. Food for thought on how we move forward with our partnership working.”**

**“Llawn gwybodaeth a da gweld y straeon cadarnhaol.”**

**“Really informative and good to see the positive stories.”**

**“Diolch bawb.”**

**“Thanks everyone.”**

**“Diolch am yr holl gyflwyniadau ac am drefnu’r digwyddiad.”**

**“Thank you all for the presentations and organising the event.”**





## Cwestiynau Cyffredin

### **C. [Ar gyfer Leah] Ydi Awdurdodau Lleol wedi'u galluogi i ddefnyddio system Jaggaer bellach?**

A. Ydyn, ond bydd angen iddynt gofrestru'n annibynnol i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd os mai'r Awdurdod Lleol fydd yr ymgeisydd arweiniol. Gweler ddolen i'r dudalen gofrestru <https://homeoffice.app.jaggaer.com/web/login.html>.

### **C. [Ar gyfer Ben] Pa blatfform cyfryngau cymdeithasol wnaethoch chi ei ddefnyddio i rannu cynnydd gyda phreswylwyr?**

A. Rydym ni'n defnyddio Orlo, sy'n rhannu i Facebook a Twitter yr un pryd. Rydym wedi gweld bod llawer o breswylwyr yn defnyddio Facebook yn hytrach na Twitter.

### **C. [Ar gyfer Damien] A fyddai modd i mi gael manylion y Tuk Tuks?**

A. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y Tuk Tuks, anfonwch e-bost at [safercommunities@wlga.gov.uk](mailto:safercommunities@wlga.gov.uk) er mwyn cysylltu'n uniongyrchol â Damien.

### **C. [Ar gyfer Ben] Beth yw manylion y Wardeiniaid Cymunedol? Pa fath o gontract gawson nhw?**

A. Roedd y Ddau Warden Cymunedol yn cael eu rheoli a'u cyflogi gan y Cyngor a chawsant eu hariannu trwy gydol y flwyddyn gyntaf. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, anfonwch e-bost at [safercommunities@wlga.gov.uk](mailto:safercommunities@wlga.gov.uk) er mwyn cysylltu'n uniongyrchol â Ben.

### **C. [Ar gyfer Mike a Ben] A fydddech cystal â rhannu eich profiadau o ddefnyddio SelectDNA?**

A. Roedd hwn yn heriol iawn i'w ddarparu, ac roedd gan Dde Cymru fwy na 3,500 o dai ar y prosiect. Dywedodd Mike, os ydych am ddefnyddio'r ased hwn yn iawn, mae angen i chi sicrhau bod amser i ymgysylltu 1:1 gyda'r aelod o'r aelwyd i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gywir ar gyfer yr eitemau gwerthfawr yn y tŷ, bod y sticeri'n cael eu dangos, a'i fod wedi'i gofrestru a'i gofnodi ar gronfa ddata SelectDNA. Awgrymodd Mike na ddylid mynd rhy fawr y tro cyntaf fel a wnaeth ef; pe bai'n gwneud hyn eto byddai'n llai ac â mwy o ganolbwynt.



## Cwestiynau Cyffredin

Dywedodd Ben fod treulio amser yn rhyngweithio gyda'r aelod o'r aelwyd yn allweddol. Weithiau pan fyddwch chi'n curo drysau, mae pobl yn brysur, felly sicrhewch pan fydd y cyfle ar gael, eich bod yn dangos a mynd trwy bethau gyda nhw i sicrhau eich bod yn taro'r gwerth.

### **C. [Ar gyfer Mike a Jo] Ydi'r Pwyntiau Cymorth wedi'u defnyddio'n ddoeth ac ydi'r gymuned yn eu defnyddio fel y cynlluniwyd?**

A. Mae'r Pwyntiau Cymorth yn fyw ac mae'r gymuned yn eu defnyddio. Maent wedi'u gosod ar bolion lamp trwy ganol y dref, ac mae'r gweithredwyr ystafell reoli TCC yn monitro unrhyw ymateb iddynt. Mae un neu ddau wedi'u targedu gan droseddwyr, ond y troeon hynny, maent wedi gallu monitro ac anfon heddlu i ymateb i'r digwyddiad cyn gynted ag a oedd yn bosibl. Gweithiodd y strategaeth cyfryngau'n dda, ac roedd yn rhoi sicrwydd pan aethant yn fyw bod y gymuned leol yn deall beth oedd eu pwrpas, fel nad oeddent yn cael eu defnyddio mewn modd negyddol, a gobeithio y bydd hynny'n parhau.



## FAQs

**Q. [for Leah] Are Local Authorities now enabled in using the Jaggaer system?**

A. Yes, they are, but will need to sign up independently of the Office of the Police and Crime Commissioner if the Local Authority is going to be the lead bidder. Please see a link to the sign up page here: [Home Office eSourcing Portal](#)

**Q. [for Ben] What social media platform did you use to share progress with residents?**

A. We use Orlo which simultaneously posts to Facebook and Twitter. We find many residents utilise Facebook rather than Twitter.

**Q. [for Damien] Please could I have details of the Tuk Tuks?**

A. If you require further information on the Tuk Tuks please email [safercommunities@wlga.gov.uk](mailto:safercommunities@wlga.gov.uk) to be put in touch directly with Damien.

**Q. [for Ben] What were the details of the Community Wardens. What type of contract did they receive?**

A. The two Community Wardens were managed and employed by the Council and were funded throughout the first year. If you require further information please email [safercommunities@wlga.gov.uk](mailto:safercommunities@wlga.gov.uk) to be put in touch directly with Ben.

**Q. [for Mike and Ben] Can I get your experiences of using SelectDNA?**

A. This was very challenging to deliver, and South Wales had over 3,500 houses on the project. Mike highlighted that if you want to realise this asset correctly, you need to ensure that there's time for 1:1 engagement with the member of the household to make sure that it's applied correctly to the items of value inside the house, that the stickers go up, and that it's registered and recorded on the SelectDNA database. Mike suggested not to go too big the first time as he did; if he were to do it again it would be smaller and more directed.

Ben echoed that spending time interacting with the household member is key. Sometimes when you are door knocking people have other things going on, so ensure that when the opportunity allows, to demonstrate and go through it with them to make sure that you're hitting the value.



## FAQs

**Q. [for Mike and Jo] Have the Help Points been used wisely and are the community using them as was planned?**

A. The Help Points are live and are being used by the community. They have been positioned at lamp posts throughout the town centre, and the CCTV control room operators monitor any response to them. One or two have been targeted criminally, but on those occasions, they've been able to monitor and get a police response to them as quickly as possible. The media strategy worked well, and it was reassuring that when they went live the local community understood what they were to be used for, so that they weren't used negatively, and hopefully that will continue.